



YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD

PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP

LLANGYNWYD, MAESTEG, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW

post@yggllangynwyd.pen-y-bont.cymru

www.yggllangynwyd.cymru

@YGGLLANGYNWYD

01656 815700

01656 815701

04.01.22

Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd. Rwy'n gobeithio gawsoch chi Nadolig braf ac iach.

Yn dilyn y sefyllfa bresennol o'r amrywiolyn Omicron, rydym wrthi'n ceisio cynllunio i alluogi dysgwyr i ddychwelyd i'r ysgol i dderbyn eu haddysg yn ddiogel. Ein bwriad yw i agor i **BOB blwyddyn ysgol ar ddydd Iau 06.01.22**, gan ddilyn amseroedd arferol y dydd a thrafnidiaeth ysgol ar gael i bawb.

Serch hynny, rwyf am eich atgoffa gall trefniadau newid ar fyr rybudd. Fel y nodir gan Lywodraeth Cymru, blynyddoedd arholiad bydd yn cael eu blaenoriaethu, ond fel ysgol rydym yn awyddus i gael yr holl ddysgwyr mewn trwy'r amser.

Os bydd sefyllfa staffio yn gwaethygu, ein bwriad yw hysbysu rhieni mor fuan â phosib o'r angen i gau i flwyddyn/blynyddoedd penodol. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu trwy InTouch a sianeli rhwydweithiau cymdeithasol yr ysgol. Sicrhewch fod eich cyfeiriad e-bost cywir gyda'r ysgol.

I geisio sicrhau bod yr ysgol yn ddiogel i bawb, gofynnaf i chi ystyried a gweithredu ar y pwyntiau isod:

- **Profion LFT:** Gofynnwn i bawb brofi bob bore LLUN / MERCHER / GWENER cyn dod i'r ysgol. Os bydd y prawf yn bositif, mae angen i'r dysgwr **beidio dod i'r ysgol** a'ch bod yn trefnu prawf PCR ar unwaith
- **Mygydau:** Mae angen sicrhau bod dysgwyr gyda mwgwd i deithio i'r ysgol a gwisgo o fewn yr ysgol (ag eithrio'r rheiny sydd wedi'u heithrio o wisgo un). Bydd angen mygydau wrth grwydro tu fewn i'r adeilad ac o fewn gwersi
- **Cynlluniau eistedd:** Mae'n hanfodol i ddysgwyr gadw at y llefydd eistedd priodol ar y bws ac o fewn eu gwersi gwahanol
- Anogwn i ddysgwyr glanhau eu manau gweithio ar ddechrau ac ar ddiwedd gwersi
- Dysgwyr i ddefnyddio'r toiledau perthnasol i'w blwyddyn dysgu ac i beidio mewn atynt mewn torf
- **Arholiadau allanol:** Bydd yr arholiadau yn parhau wythnos yn cychwyn 10.01.22. Os bydd dysgwr yn absennol o'r arholiadau hyn, ni fydd ystyriaeth arbennig yn cael ei roi gan fod cyfle i sefyll yr arholiadau eto yn yr haf.

Erfyniaf i ni gyd cydymffurfio â'r canllawiau hyn er mwyn cadw'r ysgol yn ddiogel i bawb ac i sicrhau addysg lawn i'n dysgwyr.

Diolch o galon am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad.

Meurig Jones
Prifathro

D Y S G . . . D A W N . . . D Y F O D O L . . .

